

Bwrdd Cymwysterau Cymru

QWB42 - Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2021

Presennol:

Bwrdd Cymwysterau Cymru: David Jones (DJ) (Cadeirydd), Anne-Marie Duffy (AMD), Caroline Burt (CB), Claire Morgan (CM), David W Jones (DWJ), Ellen Donovan (ED), Jayne Woods (JW), Isabel Nisbet (IN), Robert Lloyd Griffiths (RLG), Philip Blaker (PB),

Douglas Blackstock (DB), Graham Hudson (GH), Hannah Burch (HB), Michael Griffiths (MG), Sharron Lusher (SL) (Aelodau Bwrdd sy'n dod i Mewn - Sylwedyddion)

Staff Cymwysterau Cymru: Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Leonie White (LW) (ar gyfer eitem 6 yr Agenda), Kay Powell (KP), Osian Llywelyn (OLI) (Cadw cofnodion)

Llywodraeth Cymru: Jo Valentine (JV), Mike Keoghane (MK)

Ymddiheuriadau: Arun Midha (AM)

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod, gan gynnwys y rhai a fyddai'n ymuno â'r Bwrdd yn ffurfiol ym mis Ebrill a mis Mehefin yn y drefn honno.
- 1.2. Cadarnhaodd y Cadeirydd y derbyniwyd ymddiheuriadau gan AM. Esboniodd y Cadeirydd y byddai cyfnod AM fel aelod o'r Bwrdd yn dod i ben yn ffurfiol ar 31 Mawrth ac roedd am ddiolch iddo am ei waith a'i gyfraniad yn ystod ei amser ar y Bwrdd.
- 1.3. Nododd AS fod 4 papur all-bwyllgor i'w hanfon at y Bwrdd i'w cymeradwyo yn dilyn y cyfarfod hwn. Roedd y rhain mewn perthynas â'r canlynol:
 - Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (Lefel 3) - Y Camau Nesaf;
 - Canllawiau Hawliadau a Threuliau'r Bwrdd - Gwybodaeth;
 - Newid i Fframwaith Dirprwyo Cymwysterau Cymru, a
 - Newidiadau i'r Polisi Trosglwyddiadau.
- 1.4. Cyhoeddodd IN fuddiant gan y gofynnwyd iddi yn ddiweddar ymuno â grŵp cynghori Llywodraeth Cymru a oedd â'r dasg o ymdrin â materion yn ymwneud ag haf 2021. Cadarnhaodd IN ei bod wedi gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru a'r Cadeirydd nad oedd gwrthdaro buddiannau, a'u bod o'r farn nad oedd. Awgrymodd AS y dylai Llywodraeth Cymru nodi mewn unrhyw gofnodion bod IN yn rhoi barn bersonol, ac nid barn Cymwysterau Cymru.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. OLI i anfon 4 papur all-bwyllgor a amlinellir yn 1.3 o'r cofnodion at aelodau i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.**
- 2. Sesiwn Allanol gyda Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg - Llywodraeth Cymru (EITEM GAEDDIG)**
- 3. Adroddiad y Cadeirydd**
 - 3.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gyfrannu at Adolygiad y Cadeirydd a gwblhawyd yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac yn arbennig i ED am arwain ar y gwaith hwn, a JW am ddarparu cefnogaeth. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod bellach wedi derbyn copi terfynol o'r adolygiad a bod hwn yn deg ac yn gywir.
 - 3.2 Roedd y Cadeirydd yn dymuno dwyn ychydig o'r materion a godwyd yn ystod yr adolygiad hwn i sylw'r Bwrdd, yn enwedig gan fod y rhain yn tynnu sylw at faterion ehangach i'r sefydliad a phethau iddo ef fel Cadeirydd eu hystyried. Roedd y rhain fel a ganlyn:
 - rôl y Bwrdd wrth ddatblygu strategaeth;
 - angen ystyried pa eitemau sy'n mynd ar agendâu'r Bwrdd yn y dyfodol, a'r amser a ddyrennir;
 - mae cyfathrebu sefydliadol yn parhau i fod yn fater allweddol, a rôl y Cadeirydd mewn cyfathrebu ac ymgysylltu ag aelodau eraill;
 - hyrwyddo'r agenda ddigidol ac e-asesu;
 - angen tynnu'r pwyntiau datblygu o'r Adolygiad Annibynnol, a dysgu oddi wrth y rheini, ac
 - angen i adlewyrchu a dysgu o brofiad Covid-19 mewn perthynas â rhaglen waith Cymwys ar gyfer y Dyfodol.
 - 3.3 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y manylion arfaethedig ynghylch Diwrnod Datblygu'r Bwrdd a oedd i'w gynnal ar 20 Ebrill wedi'u rhannu gyda'r aelodau cyn y cyfarfod hwn a gofynnodd am unrhyw sylwadau sylweddol ar y cynigion hynny.
 - 3.4 Nododd y Bwrdd yr angen i ddatblygu strategaeth ddigidol ac e-asesu, ac roeddent yn awyddus i nodi cyfleoedd pellach i drafod hyn yn fanwl. Awgrymwyd hefyd y dylid sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng myfyrio a dysgu o'r cyfnod diwethaf a symud ymlaen gyda strategaeth y dyfodol.
 - 3.5 Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ddarparu unrhyw adborth ar yr agenda arfaethedig trwy e-bost. Nododd OLI y byddai'n cysylltu ag aelodau i gael eu barn ar y meysydd yr hoffent eu trafod yn fanwl yn ystod y diwrnod datblygu.
 - 3.6 Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai KP yn ein gadael fel Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn fuan a diolchodd iddi am ei gwaith yn ystod cyfnod heriol Covid-19. Cadarnhaodd AS ein bod bellach wedi recriwtio rhywun newydd yn llwyddiannus

a fyddai'n ymuno ym mis Mehefin. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod OLI wedi cael cyfle datblygu i ddarparu cefnogaeth yn ystod y cyfnod trosiannol.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 4.1 Ymddiheurodd PB am gyflwyno ei Adroddiad Prif Swyddog Gweithredol i'r Bwrdd yn hwyr ond eglurodd ei fod yn awyddus i gynnwys ac adlewyrchu'r wybodaeth gefndir ddiweddaraf o ran ymateb rhanddeiliaid i haf 2021. Ychwanegodd PB y byddai'n parhau gyda'i adroddiadau cynnydd ar ddiwedd bob wythnos a byddai'n cynnwys aelodau newydd yn y cylchrediad.
- 4.2 Nododd PB ei bod yn bwysig cydnabod na fyddai cytundeb cyffredinol i'r trefniadau ar gyfer 2021 yn bosibl, a bod rhai rhanddeiliaid yn debygol o herio a gwrthsefyll y trefniadau hynny. Roedd hyn yn bennaf oherwydd pryderon ynghylch y goblygiadau i ganolfannau o ran llwyth gwaith.
- 4.3 Esboniodd PB mai un o'r risgiau mawr ynghylch haf 2021 o hyd yw'r penderfyniadau a wneir mewn awdurdodaethau eraill a'r bygythiad bod newidiadau cyflym mewn mannau eraill yn arwain at newid yn sefyllfa polisi Cymru.
- 4.4 Holodd y Bwrdd a oedd risgiau yn ymwneud â negeseuon yn dod trwy gyfryngau'r DU, ac yn achosi dryswch i ddysgwyr Cymru. Cydnabu PB fod hyn bob amser yn broblem, a'n bod yn cymryd pob cam posibl i fod yn glir ac yn agored gyda'r cyfryngau ynghylch datblygiadau yng Nghymru. Ychwanegodd PB ein bod hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Phrifathrawon i roi'r wybodaeth ddiweddaraf a sefydlogi negeseuon. Byddai cyfathrebu pellach ynghylch y gwahaniaethau rhwng awdurdodaethau hefyd yn cael ei ddatblygu.
- 4.5 Nodwyd bod y Pasg yn draddodiadol yn amser lle mae Undebau yn cwrdd, ac felly dylem ddisgwyl i sawl datganiad gael eu cyhoeddi ledled y DU yn ystod y cyfnod hwn. Esboniodd PB fod cryn dipyn o ganllawiau wedi'u cyhoeddi gennym ni a CBAC hyd yma, ond ein bod bellach yn symud i wahanol fath o negeseuon yn canolbwyntio ar gydrannau craidd ein dull ar gyfer yr haf hwn, gan gynnwys diogelu buddiannau dysgwyr a chynyddu hyblygrwydd i'r eithaf. Mynegodd y Bwrdd rybudd ynghylch y negeseuon, gan nodi efallai na fyddai rhai rhanddeiliaid yn croesawu hyblygrwydd o'r fath.
- 4.6 Nodwyd y gallai fod negyddoldeb gan rieni yn Lloegr ynghylch y broses apelio yng Ngham 1, sy'n gyfyngedig i wallau gweinyddol a gweithdrefnol, ond yng Nghymru byddai'r dyfarniad academaidd hefyd yn cael ei gynnwys. Ychwanegodd PB y byddai'r broses a ddilynir gan gyrff dyfarnu yn gyfyngedig i 'resymoldeb' y dyfarniad academaidd ac felly roedd yn annhebygol o allu edrych ar raddau cyffiniol, o ystyried y gallai fod yn rhesymol dyfarnu un o ddwy radd gyffiniol mewn llawer o achosion.
- 4.7 Cyfeiriodd PB at yr argymhelliad a wnaed fel rhan o'r Adolygiad Annibynnol o drefniadau haf 2020 ynghylch yr angen am fecanwaith effeithiol ar gyfer apelio i ddysgwyr. Esboniodd PB mai ein barn ni oedd na fyddai'n fecanwaith effeithiol i

ddysgwyr oni bai y gallai edrych ar raddau cyffiniol ac y gallai canolfannau ailedrych ar y graddau yr oeddent wedi'u pennu.

- 4.8 Nodwyd bod effeithiolrwydd trefniadau apelio yn debygol o ddod yn faes pryder a bod y trefniadau yng Nghymru wedi'u hystyried yn ofalus i ddarparu'r dull mwyaf effeithiol i ddysgwyr.
- 4.9 Cyfeiriodd PB at raglen waith Cymwys ar gyfer y Dyfodol, a'n meddylfryd cyfredol. Esboniodd PB ein bod, yn dilyn canlyniadau ein hymngynghoriad cyfredol, wedi bwriadu edrych ar y paramedrau dylunio ar gyfer y cymwysterau hynny. Fodd bynnag, ar ôl myfyrio ar y ffaith bod dulliau asesu yn fater byw, cadarnhaodd PB ein bod yn ail-gynllunio ein dull i edrych ar gynnwys y pynciau hynny yn y lle cyntaf. Yna byddem yn ceisio pennu'r dull asesu sy'n gweddu orau i'r cynnwys y cytunwyd arno.
- 4.10 Cadarnhaodd PB ein bod hefyd yn gwneud rhai newidiadau i'n gwaith o amgylch y cynnig ehangach o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed, ac y byddwn yn awr yn ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid ynghylch yr hyn yr hoffent ei weld fel rhan o unrhyw gynnig i'r dyfodol, a sut olwg ddylai fod ar gynnig cynhwysol a chydlynol.
- 4.11 Nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi bod â phryderon ynghylch adnoddau a llwyth gwaith ar gydweithwyr dros y 12 mis diwethaf ac mae'n awyddus i gefnogi'r sefydliad o ran adnoddau ychwanegol ac ailgyfeirio adnoddau lle bo hynny'n briodol i gefnogi rhaglenni gwaith hollbwysig..
- 4.12 Cadarnhaodd PB fod haf 2021 yn amlwg yn creu pwysau ychwanegol, yn enwedig o ran cyfathrebu ac ymgysylltu. Cadarnhaodd PB y byddem yn penodi dau arbenigwr cyfathrebu tymor byr ychwanegol i gyfrannu at waith haf 2021 a Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Byddent yn cael y dasg o ddatblygu cynnwys mewn perthynas â'r meysydd gwaith hynny ac angen llai o fewnbwn gan y weithrediaeth. Nododd PB hefyd y byddem yn adeiladu capasiti a gallu o fewn y tîm Cyfathrebu trwy benodi dau gontractwr tymor penodol am flwyddyn o'r hydref, gyda'r swyddi tymor byr cychwynnol yn dod i ben bryd hynny.
- 4.13 Diolchodd y Cadeirydd i PB am Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol ac am y diweddariadau wythnosol rheolaidd, gan nodi eu bod yn rhoi darlun cyfoes o ddatblygiadau i'r Bwrdd yn ogystal â rhoi lefel uchel o sicrwydd a hyder iddynt.

5. Haf 2021

- 5.1 Rhoddodd JR a LW gyflwyniad i ddiweddarau'r Bwrdd ar y trefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer 2021, a'n gweithgareddau cyfathrebu cysylltiedig. Wrth wneud hynny, cadarnhaodd JR fod dogfennaeth yn ymwneud â haf 2021 hefyd wedi'i rhannu cyn y cyfarfod. Roedd y rhain yn cynnwys yr Asesiad Effaith Integredig a chyflwyniad lefel uchel ynghylch y gwahaniaethau mewn dull rhwng Cymru a Lloegr.
- 5.2 Roedd y cyflwyniad yn cynnwys manylion am y canlynol:

- rolau pob parti wrth sefydlu trefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer 2021 a'r dull cydweithredol a gymerir;
- amlinelliad o ddull Cymwysterau Cymru, gan gynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru, CBAC a'r Grŵp Dylunio a Chyflenwi (DDAG) ac ymgysylltu'n eang i sicrhau bod y cyhoedd yn deall y dull;
- eglurhad ar yr hyn sy'n raddau a bennir gan ganolfannau at ddibenion dyfarnu yn 2021, a sut y maent yn wahanol i'r graddau a aseswyd gan ganolfannau yn 2020;
- manylion y dystiolaeth asesu y gall canolfannau eu cynnwys, a'r cofnodion gwneud penderfyniadau y dylid eu cadw;
- amlinelliad o'r disgrifwyr graddau sydd wedi'u cynnwys yn Fframweithiau Asesu Cymwysterau CBAC;
- amlinelliad o brosesau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol;
- manylion yn ymwneud â'r broses apelio tri cham ar gyfer 2021, sy'n cynnwys cam adolygu canolfan, apêl i CBAC a Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefn Arholiadau Cymwysterau Cymru (EPRS);
- trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat;
- cydymffurfiaid canolfannau â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) a deddfwriaeth diogelu data;
- manylion ynghylch fframwaith rheoleiddio a gwaith monitro Cymwysterau Cymru;
- trefniadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol;
- manylion am ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys gwaith llais dysgwyr, gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a CBAC a'n hymgyrch cynnig sicrwydd sydd ar ddod.

5.3 Diolchodd y Bwrdd i JR ac LW am eu cyflwyniad a chynigiodd y sylwadau canlynol. Roedd y Bwrdd:

- yn falch o weld llais y dysgwr yn gweithio, ac yn enwedig y gwaith o ffurfio ein Grŵp Cynghori i Ddysgwyr yn symud ymlaen;
- yn cwestiynu beth oedd y bwriad o ran amllder cyfarfodydd llais dysgwyr;
- yn awgrymu y dylai'r sefydliad ailadrodd y negeseuon allweddol sy'n crynhoi ein dull ac yn eu defnyddio fel sail i'n cyfathrebu;
- yn nodi'r dull cynhwysol a gafaelgar a gymerwyd hyd yma, ac yn awgrymu y dylem ddod o hyd i ffyrdd priodol o gyflwyno'r naratif hwn;
- yn tynnu sylw at yr angen i gynllunio senarios;
- yn cynghori ein bod yn wydn yn ein gwranddo ac yn sicrhau cydbwysedd rhwng gwranddo a dweud yn ein gweithgareddau cyfathrebu;
- yn tynnu sylw at yr angen i fod yn barod ynghylch cyfathrebiadau mewn perthynas â chwyddiant mewn graddau;
- yn gofyn a oedd sefydliadau addysg uwch yn debygol o weithredu ar raddau dros dro a bennir gan ganolfannau ym mis Mehefin;
- yn holi a oedd y dull canlyniadau annodweddiadol wedi'i drafod gyda'n cyd-reoleiddwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, a beth fyddai'n digwydd pe bai CBAC yn ystyried nad oedd rhesymeg ddigonol gan ganolfannau.

- 5.4 Cadarnhaodd LW y byddai'r Grŵp Cyngori i Ddysgwyr yn cyfarfod yn fisol, ac y byddai sianel adborth agored ar ein gwefan trwy ein menter 'Dweud eich Dweud. Ychwanegodd LW ein bod hefyd, yn dilyn cyngor gan Gomisiynydd Plant Cymru, yn mabwysiadu model 'Fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni' a fyddai'n caniatáu i ni fynd yn ôl at ddysgwyr i egluro'r pwyntiau a godwyd a dangos yr hyn rydym wedi'i wneud gyda'r wybodaeth a ddarparwyd. ganddynt.
- 5.5 Cadarnhaodd LW a PB fod y negeseuon allweddol wedi'u cwblhau'n ddiweddar a'n bod eisoes wedi dosbarthu'r rhain i rai sianeli cyfryngau mewn ymateb i ymholiadau. Ychwanegodd LW y byddai'r rhain yn ymddangos dro ar ôl tro ar draws ein holl sianeli cyfryngau cymdeithasol dros y misoedd nesaf.
- 5.6 Nododd PB y gofynnir i sefydliadau addysg uwch beidio â gweithredu ar raddau dros dro ym mis Mehefin ac i benderfyniadau derbyn gael eu gwneud ym mis Awst. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fodd rheoleiddio i wahardd gweithgaredd cynnar ac yn lle hynny roeddem yn gweithio gyda chyrrff sy'n cynrychioli AU i adeiladu cytundeb ar draws y sector. Roedd rhai pryderon ynghylch lles dysgwyr lle nad oeddent efallai wedi cwrdd ag amodau cynnig ac roedd arweiniad yn cael ei ddatblygu i helpu i gefnogi dysgwyr.
- 5.7 Cadarnhaodd JR fod ein trefniadau asesu a dyfarnu amgen ar gyfer 2021 wedi cael eu rhannu â chydweithwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, a bod Lloegr hefyd yn ystyried rhoi rhywbeth tebyg yn ei le. Ychwanegodd JR bod Cyfarwyddyd polisi gan y Gweinidog na fyddai graddau a ddarparwyd gan athrawon yn newid, ond y gellid gofyn i'r ganolfan adolygu eu graddau cyn eu cyflwyno'n derfynol i CBAC.
- 5.8 Nododd JR fod trafodaethau'n cael eu cynnal ar draws gwahanol lywodraethau a chyd-reoleiddwyr ynghylch yr angen i reoli negeseuon ynghylch chwyddiant mewn graddau.

6. Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

- 6.1 Nododd LW ei bod yn falch o gadarnhau ein bod bellach wedi cwblhau'r holl gamau a oedd yn weddill o'r archwiliad. Fodd bynnag, cydnabu LW fod angen gwaith sylweddol o hyd i wella effeithlonrwydd y tîm ac y bydd adeiladu gallu yn y tîm yn ddarn o waith tymor hir o ran cyfryngau cymdeithasol, a'n gwefan fel ei fod yn fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr.
- 6.2 Nododd LW y bydd y strategaeth, yn dilyn ymlaen o'r archwiliad, yn canolbwyntio ar welliant parhaus gan fod meysydd y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy o hyd o ran cefnogi'r sefydliad. O'r herwydd, anogir aelodau'r tîm i geisio adborth yn rhagweithiol gan gydweithwyr pan fydd prosiectau'n cael eu cwblhau.
- 6.3 Cyfeiriodd LW hefyd at newid sefydliadol i ddull a arweinir gan gynnwys, a bod hyn wedi arwain at ein herio ein hunain yn barhaus o ran yr hyn y mae ein gwaith yn ei olygu i'n cynulleidfa darged. Ychwanegodd LW y byddai'r aelodau staff tymor byr newydd yn cefnogi'r gwaith hwn wrth symud ymlaen.

- 6.4 Cadarnhaodd LW fod y strategaeth yn cynnwys 4 piler, a oedd yn cynnwys rheoli ein henw da a'n risgiau; cymryd agwedd sy'n rhoi pobl yn y canol wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid; cymryd agwedd a arweinir gan gynnwys tuag at gyfathrebu a ffocws parhaus i gefnogi'r sefydliad yn effeithiol.
- 6.5 Diolchodd y Bwrdd i LW am ei phapur a rhoddodd y sylwadau canlynol ar y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Roedd y Bwrdd:
- yn nodi'r newid mewn meddylfryd o amgylch cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn gofyn a oedd hyn wedi ymestyn i'r sefydliad ehangach;
 - yn cwestiynu sut yr ydym yn sicrhau ein hunain bod ein cyfathrebiadau yn cyrraedd y bobl, yn enwedig athrawon a rhieni;
 - yn cwestiynu beth oedd persbectif LW ar y meysydd y bu'n rhaid eu newid yn dilyn ei hadolygiad cychwynnol o weithgareddau cyfathrebu, ac a ddylid cynnal adolygiad o'r fath o bryd i'w gilydd;
 - yn cwestiynu a ddylai piler cyntaf ein strategaeth ymwneud â rheoli enw da a risg sefydliadol, neu a ddylai ymwneud â rheoli hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a system gymwysterau Cymru;
 - yn cwestiynu sut rydym yn penderfynu beth ddylai ein cynnwys a naws ein llais fod, a sut mae hynny'n wahanol i sefydliadau perthnasol eraill fel CBAC a Llywodraeth Cymru;
 - yn cwestiynu sut rydym yn cyfleu ein negeseuon ynghylch ble mae cyfrifoldebau yn gorwedd yn y pen draw;
 - yn tynnu sylw at yr angen i aros yn weladwy beth bynnag sy'n digwydd yn ystod y misoedd nesaf, hyd yn oed pan nad yw'r holl fanylion gennym, ac
 - yn nodi y gallem ni fel y rheolydd ddewis cyfathrebu â dysgwyr a chanolfannau, ac na ddylid ystyried hyn o reidrwydd yn ddewis deuaidd.
- 6.6 Mewn ymateb, eglurodd LW, yn ei chysylltiad â Cymwys ar gyfer y Dyfodol, fod cydweithwyr hyd yma yn derbyn adborth gan rhanddeiliaid mewn modd cadarnhaol ac yn gweithredu ar yr adborth hwnnw. Nododd LW hefyd, er nad oedd wedi cwrdd â chydweithwyr yn gorfforol oherwydd pandemig Covid, ei bod wedi gweld cynulleidfa awyddus yn fewnol wrth gwestiynu dulliau a ddefnyddiwn. Ychwanegodd LW fod y sefydliad ar daith, a'i fod wrthi'n symud tuag at ddull sy'n canolbwyntio fwy ar y cwsmer.
- 6.7 Cadarnhaodd LW ein bod wedi bod yn dadansoddi ein gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys beth yw'r cyfraddau ymgysylltu ac edrych ar bersonas. Fel rhan o'r gwaith hwn, daeth yn amlwg ein bod yn gwthio llawer o wybodaeth allan i'n sianeli, ond nad oedd y wybodaeth yn ddigon diddorol i ennyn sylw ac felly ddim yn torri trwodd i'n cynulleidfa darged. Cyfeiriodd LW hefyd at yr angen i grynhoi negeseuon a'u gwneud yn syml ac yn hygyrch i bawb eu deall.
- 6.8 Esboniodd LW ein bod wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a CBAC ac wedi cytuno y byddem yn arwain o ran cyfathrebu â dysgwyr, gan gynnwys ein Grŵp Cynghori ar Ddysgwyr ac arolwg Dweud eich Dweud. Byddem hefyd yn cyhoeddi cyfathrebiadau uniongyrchol â chanolfannau. Nododd LW, pan fydd

cyfathrebiadau'n cael eu cyhoeddi gan CBAC i ganolfannau, y byddai hyn yn cael ei gydlynu er mwyn osgoi dyblygu.

- 6.9 Mewn ymateb i ymholiadau ynghylch naws llais y sefydliad, cydnabu LW fod hyn yn dal i fynd rhagddo ond ei bod yn edrych i ddatblygu naws empathig sy'n amlwg yn cydnabod y pwysau ar ganolfannau a straen dysgwyr yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

II. LW i gysylltu ag OLI a rhannu personas ag aelodau'r Bwrdd.

7. Adroddiad Cynllun Gweithredol ac Adroddiad Ariannol hyd ddiwedd Chwefror 2021

- 7.1 Rhoddodd LE a KP ddiweddariad i'r Bwrdd ar hynt Adroddiad Cynllun Gweithredol 2020/2021 a'r Adroddiad Ariannol hyd ddiwedd mis Chwefror 2021.
- 7.2 Cadarnhaodd LE, ar ddiwedd mis Chwefror, fod pob un o'r pedair blaenoriaeth weithredol yn cael eu graddio'n wyrdd. Fodd bynnag, mae pedair is-flaenoriaeth yr adroddir eu bod yn ambr neu'n goch. Roedd y rhain fel a ganlyn:
- Rheoli'r prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol;
 - Parhau â'r Prosiect Diwygio Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig;
 - Cryfhau asesiad yn y System Gymwysterau, a
 - Tendr ar gyfer system Cyllid ac AD newydd a dechrau ei weithredu.
- 7.3 Esboniodd LE fod y sgôr goch ar gyfer rheoli'r prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol oherwydd y newid yn y dull ymgynghori ac ymgysylltu. Nododd LE y cytunwyd ar y dull diwygiedig hwn yn y Bwrdd Diwygio a chyda'r Bwrdd Rheoli ac y bydd yn parhau'n goch am weddill y flwyddyn adrodd gyfredol.
- 7.4 Cadarnhaodd LE fod y Prosiect Diwygio Adeiladu ac Amgylchedd Adeiledig yn mynd rhagddo gyda rhai addasiadau i'r amserlen. Bydd y cymwysterau Sylfaen a Dilynant ar gael ar gyfer eu haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2021, ond bydd gan ganolfannau'r dewis i ddefnyddio cymwysterau etifeddiaeth am flwyddyn arall os ydyn nhw'n teimlo nad ydyn nhw wedi'u paratoi'n ddigonol oherwydd heriau sy'n gysylltiedig â Covid. Yn ogystal, mae cyflwyno'r cymwysterau Prentisiaeth wedi'i ohirio tan fis Medi 2022 i ganiatáu mwy o amser i'r diwydiant sefydlu'r fframweithiau prentisiaeth ac i sicrhau bod canolfannau'n barod.
- 7.5 Esboniodd LE fod y drydedd is-flaenoriaeth yn bennaf ar ei hôl hi oherwydd oedi wrth ddatblygu MERV fel cysyniad, ond nad oedd amser yn cael ei ystyried yn hanfodol o ran yr is-flaenoriaeth hon. Gan gyfeirio at y tendr am system gyllid ac AD newydd, nododd LE fod y dyddiad gweithredu ar gyfer y system gyllid wedi'i ddiwygio i ddechrau ym mis Gorffennaf 2021.

- 7.6 Esboniodd KP fod y papur hwn eisoes wedi'i rannu gyda'r Pwyllgor Adnoddau a'i fod mewn gwirionedd yn benllanw o'r darlun a gafodd y Bwrdd trwy ddiweddariadau rheolaidd dros y 6 mis diwethaf.
- 7.7 Cadarnhaodd KP, ar ddiwedd mis Chwefror 2021, fod tanwariant a oedd oddeutu £850,000. Ychwanegodd KP ein bod yn dal i nodi fod £79k yn amrywiol a risg iddo o hyd.
- 7.8 Nododd KP fod y sefyllfa ariannol wedi'i hadolygu ers i'r Bwrdd gyfarfod ddiwethaf ym mis Ionawr, a bod y Pwyllgor Adnoddau'n teimlo'n fodlon ei fod yn gyson â lefel y risg a nodwyd yn haf 2020.
- 7.9 Cadarnhaodd KP fod grantiau yn un o'r prif feysydd lle gwelsom bethau'n symud yn sylweddol o ran y rhagolwg, ac roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oedd y rhai a oedd yn derbyn grantiau yn gallu ymgymryd â sawl gweithgaredd yr oeddent yn rhagweld y byddent yn eu cynnal eleni.
- 7.10 Diolchodd y Bwrdd i LE a KP am eu gwaith ar y papurau a darparodd y sylwadau a ganlyn. Roedd y Bwrdd:
- yn nodi bod is-flaenoriaeth 1.3 a amlinellwyd mewn papur yn 1.1 mewn gwirionedd ac y dylid adolygu'r cofnod hwn;
 - yn awgrymu y dylid ychwanegu disgrifiadau o raddfeydd RAG mewn adroddiadau yn y dyfodol;
 - yn cwestiynu a oedd dyddiad penodol y gallai'r Comisiynydd Gwybodaeth godi materion o safbwynt cyfreithiol;
- 7.11 Cadarnhaodd AS a KP nad oedd dyddiad y byddent yn gallu codi materion gyda ni, ond roedd yn llai tebygol wrth i amser fynd yn ei flaen. Cadarnhaodd KP y byddai angen neilltuo rhywfaint o adnoddau ar gyfer hyn yng nghyllideb 2021/22.
- 7.12 Nododd y Bwrdd y sefyllfa ar ddiwedd mis Chwefror 2021.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

III. OLI i ddiwygio a diweddarau cofnod o is-flaenoriaethau ym mhapur QWB42.7.

8. Cynllun Gweithredol 2021 - 22 (gan gynnwys blaenoriaethau gweithredol a chyllideb) a Chynllun Busnes drafft (allanol)

- 8.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem hon, gan nodi bod Cynllun Gweithredol 2021/22 wedi'i drafod yn y Pwyllgor Adnoddau ar 17 Mawrth a phenderfynwyd peidio â chymeradwyo'r cynllun hwn ar y cam hwnnw. Roedd hyn oherwydd datblygiadau parhaus o ran trefniadau asesu a dyfarnu, ac ar yr achlysur hwn, roedd yn briodol dwyn yr eitem hon i sylw aelodau presennol a darpar aelodau'r Bwrdd. Nododd y Cadeirydd hefyd y gallai trafodaethau yn ystod ein Diwrnod Datblygu hefyd arwain at faterion yn dod i'r amlwg a allai gael effaith ar flaenoriaethau gweithredol.

- 8.2 Cytunodd y Bwrdd â chrynodeb y Cadeirydd o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y Pwyllgor Adnoddau, gan nodi bod cysylltiad annatod rhwng y cynllun gweithredol a'r gyllideb gysylltiedig, ei bod yn bwysig i'r Bwrdd gael cyfle i fyfyrion a chael rhywfaint o hyblygrwydd a fyddai'n caniatáu ar gyfer gwneud newidiadau yn dilyn trafodaethau ar 20 Ebrill.
- 8.3 Nododd y Bwrdd y gallai'r sefyllfa fod yn wahanol iawn cyn y Diwrnod Datblygu ar ôl cyhoeddi manifestos pleidiau gwleidyddol ac y gallai hyn hefyd fod yn ffactor yn ein trafodaethau.
- 8.3 Cyflwynodd AS a KP Gynllun Gweithredol a Chyllideb 2021-22 i'r Bwrdd.
- 8.4 Esboniodd AS i'r Bwrdd ein bod yn cynnal proses lle mae'n rhaid i ni lunio cynllun blynyddol lle byddwn yn seilio ein cyllideb ar sero ac yn nodi gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni. Nododd AS, er bod rhai rhaglenni gwaith yn rhychwantu sawl blwyddyn ac y gellid ystyried bod y broses hon ychydig yn artiffisial, mae'n galluogi'r sefydliad i adrodd a rheoli ei arian yn unol â hynny. Ychwanegodd AS y gellid gwneud newidiadau i'r Cynllun Gweithredol trwy gydol y flwyddyn pe bai hynny'n angenrheidiol, gan dynnu sylw at 2020 fel enghraifft lle adolygwyd gweithgareddau oherwydd Covid.
- 8.4 Nododd AS fod rhai o'r elfannau sy'n achosi ansicrwydd, gan gynnwys sut rydym yn rheoli Cymwys ar gyfer y Dyfodol o ystyried y safbwyntiau cyfnewidiol ar asesu, safonau a chynllunio ar gyfer 2022, wedi'u hadlewyrchu yn y papur i'r Bwrdd yn dilyn adborth gan y Pwyllgor Adnoddau. Ychwanegodd AS y byddai'r cynllun busnes, sy'n gweithredu fel ein llais allanol o ran yr hyn rydym yn ei wneud fel sefydliad, yn cael ei gyhoeddi ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Gweithredol a thrafodaethau'r Bwrdd ar 20 Ebrill.
- 8.5 Wrth gyflwyno'r Gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22, amlygodd KP gydrannau sy'n parhau i fod yn risgiau a sawl rhagdybiaeth y mae'r gyllideb gyfredol a'r Cynllun Cyllid Tymor Canolig yn seiliedig arnynt.
- 8.6 Diolchodd y Bwrdd i staff perthnasol am y gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredol a Chyllideb 2021/22 a darparodd y sylwadau a ganlyn. Roedd y Bwrdd:
- yn cwestiynu a roddwyd sylw digonol i heriau rheoliadol 2022 ac asesiad digidol yn y cynllun hwn;
 - yn awgrymu bod cyfeiriadau at ymchwil yn fach iawn ar hyn o bryd;
 - yn cwestiynu a oes angen i ni ailedrych ar rywfaint o'r gwaith a nodwyd ar gyfer Cymwys ar gyfer y Dyfodol, gan adlewyrchu ar y cyfnod diwethaf;
 - yn nodi pwysigrwydd cyfarfod mis Ebrill, a fyddai'n rhoi cyfle i gael trafodaethau manwl a chadw golwg ar y Cynllun Gweithredol yn y cyfnod interim o ystyried y cyd-destun gwleidyddol;
 - yn nodi bod CBAC wedi cael cyfnod heriol, ac wedi cwestiynu a ddylai eu sefyllfa ariannol a'u sicrwydd o ran gallu i gyflawni eu dyletswyddau gael eu hadlewyrchu'n benodol yn y Cynllun Gweithredol yn flynyddol;

- yn myfyrio ar yr angen i gwricwla lleol gael eu hadlewyrchu mewn cymwysterau yn y dyfodol, ac ysgolion yn cael y gallu i lunio eu hasesiadau eu hunain;
- yn cydnabod mai un o bwyntiau allweddol cwricwla cyffredin yw gwneud dysgwyr yn debyg i'w cyfoedion, er mwyn sicrhau nad yw'r hyn sy'n cael ei gynnig i ddysgwyr yn rhy ddargyfeiriol a bod cyfle cyfartal;
- yn cydnabod y gellir mynd i'r afael â rhai o ddiffygion asesu lleol yn y gorffennol gydag atebion digidol;
- yn cwestiynu sut mae darpariaeth cydraddoldebau wedi'i hymgorffori yn y cynllun, ac
- yn cwestiynu pam roedd ffigur cyflog uwch ar gyfer 2021/22 nag oedd ar gyfer y ddwy flynedd ddiweddarach.

- 8.6 Cadarnhaodd AS a JR fod trafodaethau cychwynnol wedi cychwyn ar drefniadau yn ehangach ar gyfer 2022, ac y byddai llif gwaith adfer safonau yn dechrau cyn bo hir. Byddai hyn yn cynnwys rhywfaint o waith cydweithredol gyda chyd-reoleiddwyr cymwysterau a hefyd adeiladu ar waith safonau a ddechreuwyd o'r blaen ond nad oedd wedi'i gwblhau.
- 8.7 Ychwanegodd PB fod ganddo bryderon hefyd ynghylch canlyniadau y gellid eu cymharu fel dull wrth symud ymlaen ac awgrymodd y byddai angen gwneud darn sylweddol o waith o ran sut rydym yn cysyniadu cynnal safonau yn y dyfodol.
- 8.8 Esboniodd PB y byddem yn agored i ailedrych ar benderfyniadau blaenorol, ond ei bod yn bwysig i ni beidio â gwneud penderfyniadau ar frys, ac y dylem geisio ailedrych ar ein penderfyniadau cynharach yn gyson wrth i ni ddatblygu ein meddwl ymhellach o ran cynnwys a dull asesu yn y dyfodol.
- 8.9 Nododd PB ei bod yn bwysig bod gan gymwysterau newydd yr hyblygrwydd hwnnw i ganiatáu i'r cwricwlwm lleol gael eu adlewyrchu. Ychwanegodd PB y byddai'r haf hwn yn ddiddorol yn hynny o beth o ystyried y bydd graddau'n cael eu cyhoeddi ar sail graddau a bennir gan ganolfannau, a'r pryderon a fynegwyd o ran llwyth gwaith.
- 8.10 Cadarnhaodd KP ein bod wedi chwistrellu cyllid unwaith ac am byth penodol i gwmpasu'r adnoddau tymor penodol ychwanegol ar gyfer Cyfathrebu, ac nad oedd hyn wedi'i nodi fel angen o ran gwariant ar gyfer y flwyddyn nesaf ar hyn o bryd.
- 8.11 Awgrymodd AS y byddem yn ceisio dwyn eitemau i'w trafod ar flaenoriaethau gweithredol a'r gyllideb sy'n cyd-fynd â hwy yn gynharach yn y dyfodol, gan nodi mis Ionawr fel amser defnyddiol i wneud hynny. Croesawodd y Bwrdd yr awgrym hwn a themlai y byddai hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i ymateb i rywfaint o'r adborth a gafwyd fel rhan o Adolygiad y Cadeirydd.
- 8.12 Cymeradwyodd y Bwrdd y blaenoriaethau gweithredol a'r gyllideb ar gyfer 2021/22.

9. Adroddiad y Pwyllgor Rheoleiddio

9.1 Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio mai'r cyfarfod diwethaf oedd ei gyfarfod cyntaf ers yr haf diwethaf oherwydd aildrefnu gweithgaredd y Bwrdd dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Roedd y Pwyllgor wedi trafod yr eitemau canlynol:

- diweddariad ar Gyfres y Gaeaf;
- trafodaethau manwl ar drefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer 2021 a 2022;
- ein safbwynt sefydliadol ar adfer safonau a'r rhaglen waith y byddai'r Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio yn ei chyflawni, a
- cymeradwyo ein Polisi Ymgynghori diwygiedig.

10. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

10.1 Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg eu bod wedi cyfarfod ar 4 Mawrth 2021. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi trafod y meysydd canlynol:

- Archwiliad allanol - trafodaethau ynghylch cynllunio ar gyfer cyfrifon diwedd blwyddyn sydd i ddod. Mae archwilwyr yn gyffyrddus â lle'r ydym fel sefydliad ar hyn o bryd ac wedi rhannu prosesau o ran sut y maent yn mynd i archwilio ein cyfrifon yn rhithiol;
- Archwiliad mewnol - cyflwynwyd 2 adroddiad a oedd yn cynnwys monitro ein cynllun gweithredol. Rhoddwyd lefel sylweddol o sicrwydd ar y rheolaethau a'r prosesau sydd ar waith ar gyfer yr eitem honno o waith. Trafodwyd adroddiad yn dilyn archwiliad cyfathrebu a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2019, gan gadarnhau bod yr holl gamau a oedd heb eu cyflawni bellach wedi'u cyflawni.
- Risg - Ym mis Chwefror, cynhaliodd ARAC gyfarfod i edrych yn benodol ar risgiau. Rhoddir adborth ar y rheini i aelodau yn Niwrnod Datblygu'r Bwrdd sydd i'w gynnal ar 20 Ebrill.

11. Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau

11.1 Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau eu bod wedi cyfarfod ar 17 Mawrth. Roedd y Pwyllgor Adnoddau wedi trafod y meysydd canlynol:

- Cynllun Gweithredol ac Adroddiad Ariannol 2020/21;
- Cynllun Gweithredol arfaethedig ar gyfer 2021/22 a'r gyllideb;
- diweddariad gan Adnoddau Dynol ar faterion sy'n codi, gan gynnwys diweddariadau o ran adnoddau staff, ac
- adolygiad o'n Polisi Teithio a Chynhaliath.

12. Cofnodion y Bwrdd a Diweddariad Camau Gweithredu

12.1 Nododd y Bwrdd anghywirdeb wrth adrodd ar dudalen 8 o gofnodion Cofnodion 28 Ionawr yn ymwneud ag arholwyr allanol mewn addysg uwch ac awgrymodd y gellid anfon geiriad amgen trwy e-bost. Cytunwyd y byddai IN yn anfon geiriad amgen at KP i'w ymgorffori yn y cofnodion terfynol.

12.2 Cymeradwywyd y cofnodion yn amodol ar wneud y diwygiad.

12.3 Nododd KP fod gennym weithred barhaus i siarad ag aelodau'r Bwrdd cyn iddynt ymddeol. Cadarnhaodd KP y byddai AM yn ymddeol ddiwedd mis Mawrth a bod gennym 3 aelod arall yn ymddeol yn ddiweddarach yr haf hwn.

13. Rhagolwg

13.1 Cadarnhaodd KP y byddai OLI yn siarad ag aelodau unigol cyn ein Diwrnod Datblygu Bwrdd i nodi meysydd yr hoffent eu trafod. Nododd KP hefyd fod siaradwyr allanol wedi cael gwahoddiad i'r sesiwn hon.

13.2 Nododd KP y byddai canfyddiadau cychwynnol yr ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Mai, a'n bod ar hyn o bryd yn rhagweld y byddwn yn dwyn ein penderfyniadau arfaethedig i sylw'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.

13.3 Ychwanegodd KP y bydd angen newid y Contractau dros Drothwy'r UE gan fod y rhain bellach yn berthnasol i drothwyon Sefydliad Masnach y Byd ac yn gysylltiedig â'r penderfyniadau all-bwyllgor sydd i'w gwneud fel rhan o'r agenda hon.

13.4 Cadarnhaodd KP hefyd y byddai OLI mewn cysylltiad i drafod unrhyw feysydd neu eitemau o ddiddordeb i'w hychwanegu at y Rhagolwg i'w trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

IV. OLI i gysylltu ag aelodau'r Bwrdd ynghylch eitemau i'w hychwanegu at y Rhagolwg.

14. UFA

14.1. Cadarnhaodd y Bwrdd nad oedd unrhyw fater arall. Diolchodd y Cadeirydd i KP am ei gwaith fel Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol ar ran y Bwrdd a chydabu fod ymgymryd â'r rôl yn ystod pandemig Covid-19 wedi bod yn heriol. Dymunodd y Bwrdd bob lwc i KP yn ei rôl yn y dyfodol ac roedd yn edrych ymlaen at weithio gydag OLI dros y misoedd nesaf.

14.2. Cydnabu'r Cadeirydd ein bod yn colli aelodau gwerthfawr dros y misoedd nesaf ond ei fod yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'r aelodau newydd.

15. Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol [EITEM GAEDIG]

15.1 Mae'r cofnodion ar gyfer yr eitem gaeedig hon yn sensitif ac yn cael eu cofnodi mewn man arall.

Diwedd